OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2007 Rhif 2425 Cy.201)

ANIFEILIAID, CYMRU

IECHYD ANIFEILIAID

Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Cymru) 2007

Wedi'i wneud	-	-	*14 Awst 2007*
Yn dod i rym	-	-	*14 Awst 2007*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1, 7, 8 ac 83 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi, cychwyn a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Crynoadau Anifeiliaid (Cymru) 2007.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 14 Awst 2007.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "anifeiliaid" ("*animals*") yw gwartheg (ond heb gynnwys buail a iacod), ceirw, geifr, defaid a moch;

ystyr "arwerthiant defaid magu yn yr hydref" ("*sheep autumn breeding sale*") yw crynhoad anifeiliaid a gynhelir rhwng 1 Awst a 31 Rhagfyr at y prif ddiben o werthu defaid bridio;

ystyr "crynhoad anifeiliaid" ("*animal gathering*") yw achlysur pan gaiff anifeiliaid eu crynhoi ynghyd at un neu fwy o'r dibenion canlynol —

(a) gwerthiant, sioe neu arddangosfa;

(b) traddodi llwyth o anifeiliaid ymlaen o fewn Prydain Fawr;

(c) archwiliad i gadarnhau bod gan yr anifeiliaid nodweddion brid penodol;

mae "cyfarpar" ("*equipment*") yn cynnwys llociau a chlwydi;

(**1**) 1981 p.22. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Gweinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy O.S. 1999/672 ac O.S. 2004/3044. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

ystyr "diheintydd a gymeradwywyd" ("*approved disinfectant*") yw diheintydd a gymeradwywyd o dan Orchymyn Clefydau Anifeiliaid (Diheintyddion a Gymeradwywyd) 1978(**2**);

mae i "man i anifeiliaid" ("*animal area*") yr ystyr a roddir yn erthygl 5(3)(c);

ystyr "mangre drwyddedig" ("*licensed premises*") yw mangre a drwyddedwyd o dan erthygl 5;

ystyr "palmantog" ("*paved*") yw arwyneb o sment, concrid, asffalt neu ddeunydd caled anhydrin arall y gellir ei lanhau a'i ddiheintio'n effeithiol.

Hysbysiadau a thrwyddedau

3.—(1) O ran hysbysiad neu drwydded o dan Gorchymyn hwn —

(a) rhaid iddynt fod yn ysgrifenedig;

(b) gellir eu diwygio, eu hatal dros dro, neu eu dirymu drwy hysbysiad a ddyroddir gan arolygydd milfeddygol; ac

(c) cânt fod yn ddarostyngedig i'r cyfryw amodau y mae'r arolygydd milfeddygol yn barnu bod eu hangen i atal cyflwyno clefyd i'r fangre drwyddedig neu i atal lledaenu clefyd o fewn y fangre drwyddedig neu'r tu allan iddi.

(2) Ond nid yw'r erthygl hon yn gymwys i hysbysiad neu drwydded a roddir gan Weinidogion Cymru o dan erthygl 8.

Eithriadau

4. Nid yw'r Gorchymyn hwn yn gymwys—

(a) os yr un person sy'n berchen ar bob anifail y daethpwyd ag ef i'r crynhoad;

(b) os bydd yr anifeiliaid i gyd yn dod o un set o fangreoedd y mae Gweinidogion Cymru wedi ei awdurdodi fel grwp meddiannaeth unigol o dan Orchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003(**3**); ac

(c) os bydd y crynhoad anifeiliaid yn digwydd ar fangre y mae perchennog yr anifeiliaid yn berchen arni neu'n ei meddiannu.

Defnyddio mangreoedd ar gyfer crynoadau anifeiliaid

5.—(1) Ni chaiff neb ddefnyddio unrhyw fangre ar gyfer crynhoad anifeiliaid oni bai bod y fangre honno wedi ei thrwyddedu i'r perwyl hwnnw gan arolygydd milfeddygol.

(2) Rhaid i gais am drwydded fod yn ysgrifenedig.

(3) Rhaid i drwydded bennu—

(a) enw'r trwyddedai;

(b) y fangre lle y caniateir crynhoi'r anifeiliaid; ac

(c) y man y caniateir i'r anifeiliaid fynd iddo ("y man i anifeiliaid").

Cyfyngiad o 27 o ddiwrnodau ar gynnal crynhoad anifeiliaid

6. Yn ddarostyngedig i erthyglau 7 ac 8, ni chaiff neb ganiatáu crynhoad anifeiliaid ar fangre y mae anifeiliaid wedi cael eu cadw arni nes bydd 27 o ddiwrnodau wedi mynd heibio ers y diwrnod—

(a) y gadawodd yr anifail olaf y fangre honno; a

(**2**) O.S. 1978/32 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf o ran Cymru gan O.S. 2006/3166 (Cy.291).
(**3**) O.S. 2003/1966 (Cy.211), fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2006/179 (Cy.30) ac O.S. 2006/1036 (Cy. 106).

(b) ar ôl i'r anifail olaf adael y fangre, pan fydd yr holl gyfarpar y daeth yr anifeiliaid i gysylltiad ag ef wedi ei lanhau fel nad oes unrhyw halogiad gweladwy.

Esemptiad ar gyfer mangre sydd â man palmantog i anifeiliaid

7.—(1) Nid yw'r cyfyngiadau yn erthygl 6 yn gymwys os yw'r man i anifeiliaid yn y fangre drwyddedig wedi cael ei balmantu, ac os yw wedi cael ei lanhau a'i ddiheintio a bod gwastraff wedi cael ei waredu oddi yno yn unol â'r erthygl hon cyn bod crynhoad pellach o anifeiliaid yn cael ei gynnal.

(2) O ran y gwaith glanhau a diheintio—

(a) rhaid iddo beidio â dechrau nes bydd pob anifail wedi ei symud o'r rhan honno o'r man i anifeiliaid sy'n cael ei glanhau a'i diheintio; a

(b) rhaid iddo gael ei gwblhau ar ôl i'r anifail olaf adael y fangre drwyddedig a chyn i grynhoad anifeiliaid gael ei gynnal eto ar y fangre.

(3) Rhaid ysgubo neu grafu'n lân bob rhan o'r man i anifeiliaid (yn cynnwys unrhyw gyfarpar), a'i glanhau drwy ei golchi a'i diheintio â diheintydd a gymeradwywyd.

(4) Rhaid i'r trwyddedai sicrhau bod yr holl fwyd anifeiliaid y mae'r anifeiliaid wedi cael mynd ato, a'r holl sarn, y dom a'r deunydd arall sy'n dod o anifeiliaid ac halogion eraill sy'n dod o anifeiliaid sydd yn y man i anifeiliaid—

(a) yn cael eu difa,

(b) yn cael eu trin er mwyn sicrhau nad oes perygl y byddant yn trosglwyddo clefydau; neu

(c) yn cael eu gwaredu fel nad yw anifeiliaid yn gallu mynd atynt,

cyn gynted ag y bo modd a chyn i anifeiliaid gael mynd i mewn i'r fangre drwyddedig eto.

(5) Os, ar ôl yr achlysur diwethaf pan gafodd y man i anifeiliaid ei lanhau a'i ddiheintio yn unol â'r erthygl hon, y'i halogir â thom anifeiliaid neu ddeunydd arall sy'n dod o anifeiliaid neu unrhyw halogyn sy'n dod o anifeiliaid, rhaid ysgubo neu grafu'n lân y man i anifeiliaid neu'r rhannau hynny ohono sydd wedi eu halogi felly, a'u glanhau drwy olchi a thrwy ddefnyddio diheintydd a gymeradwywyd cyn i unrhyw anifail gael mynd i'r fangre drwyddedig eto.

(6) Pan na fo cyfres o grynoadau anifeiliaid, sy'n cael eu cynnal ar fangre sydd â man palmantog i anifeiliaid, yn para'n hwy na chyfanswm o 48 awr, caiff y crynoadau hynny eu trin fel un crynhoad anifeiliaid.

Esemptiad ar gyfer arwerthiannau defaid magu yn yr hydref

8.—(1) Os bydd gan fangre drwyddedig fan palmantog i anifeiliaid, yn achos arwerthiant defaid magu yn yr hydref, caiff y trwyddedai wneud cais i Weinidogion Cymru am drwydded ychwanegol—

(a) i ganiatáu bod defaid yn yr arwerthiant defaid magu yn yr hydref yn gallu mynd y tu allan i'r man palmantog i anifeiliaid; a

(b) i gynnal crynhoad anifeiliaid pellach o fewn 27 o ddiwrnodau o ddiwedd yr arwerthiant defaid magu yn yr hydref.

(2) Rhaid i'r drwydded bennu'r man y tu allan i'r man palmantog i anifeiliaid y caiff y defaid fynd iddo a'r dyddiad pan ganiateir y mynediad hwnnw.

(3) Rhaid i'r drwydded beidio â chaniatáu mynediad i unrhyw ran o'r man y tu allan i'r man palmantog fwy nag unwaith bob 27 o ddiwrnodau.

(4) Rhaid i'r drwydded bennu'r mesurau bioddiogelwch y mae'n rhaid eu rhoi ar waith.

(5) Nid yw'r drwydded yn effeithio ar unrhyw grynhoad anifeiliaid a gynhelir yn y cyfnod o 27 o ddiwrnodau ar ôl diwedd yr arwerthiant defaid magu yn yr hydref sydd yn digwydd yn unig ar y man palmantog i anifeiliaid y mae erthygl 7 yn gymwys iddo.

(6) Rhaid i unrhyw gais a wneir i Weinidogion Cymru o dan baragraff (1)—

(a) bod yn ysgrifenedig;

(b) datgan dyddiad arfaethedig yr arwerthiant defaid magu yn yr hydref;

(c) datgan dyddiad arfaethedig unrhyw grynhoad anifeiliaid y mae'r trwyddedai am ei gynnal o fewn 27 o ddiwrnodau o ddiwedd yr arwerthiant defaid magu yn yr hydref a natur y crynhoad anifeiliaid hwnnw; ac

(ch) dod i law Gweinidogion Cymru o leiaf bedair wythnos cyn dechrau'r arwerthiant defaid magu yn yr hydref.

(7) O ran unrhyw drwydded a ddyroddir o dan yr erthygl hon—

(a) rhaid iddi fod yn ysgrifenedig; a

(b) caniateir ei diwygio, ei hatal dros dro, neu ei dirymu drwy hysbysiad a ddyroddir gan Weinidogion Cymru.

Terfynau amser

9.—(1) Rhaid i grynhoad anifeiliaid a gynhelir at ddibenion gwerthiant (boed y gwerthiant yn unig ddiben neu beidio) ar fangre sydd â man palmantog i anifeiliaid neu arwerthiant defaid magu yn yr hydref a drwyddedwyd o dan erthygl 8 beidio â phara am fwy na 48 awr, gan ddechrau ganol dydd.

(2) Caiff arolygydd milfeddygol drwy hysbysiad estyn cyfnod crynhoad anifeiliaid o dan baragraff (1) os yw'r arolygydd milfeddygol wedi'i fodloni—

(a) bod angen yr estyniad er lles yr anifeiliaid; neu

(b) mai bach yw'r perygl o gyflwyno clefydau yn y gwerthiant ac o ledaenu clefydau wedi hynny.

(3) Yn achos crynhoad anifeiliaid nad yw paragraff (1) yn gymwys iddo, os un o ddibenion y crynhoad yw crynhoi anifeiliaid ynghyd i'w traddodi ymlaen o fewn Prydain Fawr, rhaid i'r crynhoad beidio â phara am fwy na 48 awr, gan ddechrau ganol dydd.

Newid ar amser dechrau crynoadau anifeiliaid at ddibenion gwerthu

10.—(1) Yn achos crynhoad anifeiliaid a gynhelir at ddibenion gwerthiant (boed y gwerthiant yn unig ddiben neu beidio) ar fangre sydd â man palmantog i anifeiliaid neu arwerthiant defaid magu yn yr hydref a drwyddedwyd o dan erthygl 8, caiff y trwyddedai newid yr amser dechrau am ganol dydd, drwy o leiaf bythefnos ymlaen llaw—

(a) hysbysu Gweinidogion Cymru yn ogystal â'r awdurdod lleol o ddyddiad ac amser dechrau a diweddu'r crynhoad anifeiliaid neu'r arwerthiant defaid magu yn yr hydref; a

(b) rhoi cyhoeddusrwydd i'r crynhoad anifeiliaid neu'r arwerthiant defaid magu yn yr hydref fel y bydd y sawl sy'n dod ag anifeiliaid yno yn cael gwybod am yr amser dechrau a diweddu newydd.

(2) Os yw'r crynoadau anifeiliaid yn un o gyfres o grynoadau o'r fath, caniateir i'r hysbysiad a'r cyhoeddusrwydd fod ar gyfer y gyfres honno.

Gwerthiant cigydda dynodedig a chasgliadau cigydda dynodedig

11.—(1) Ni chaiff neb gynnal gwerthiant cigydda dynodedig neu gasgliad cigydda dynodedig onid yw ar fangre sydd â man palmantog i anifeiliaid.